# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Caerdydd

Ionawr 2011



## Adroddiad Gwella Blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ysgrifennir yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Ceir eglurhad o swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn Atodiad 1). Adroddiad newydd ydyw y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi o ran pa mor dda y mae cynghorau Cymru yn gwella'u gwasanaethau. Gyda chymorth arolygwyr eraill fel Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae'r cyngor yn ceisio ei gyflawni; sut mae'n gwneud hynny; a'r hyn y mae angen i'r Awdurdod ei wneud i wella'r ffordd y mae'n gwella ei wasanaethau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn cyfleu'r darlun hwnnw a phob blwyddyn byddwn yn llunio adroddiad i roi gwybod i chi am y cynnydd y mae Cyngor Caerdydd (y Cyngor) wedi'i wneud. Nid ydym wedi ymdrin â phob gwasanaeth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu. Rydym wedi canolbwyntio ar nifer fach o bethau, yn arbennig y pethau hynny y mae'r Cyngor wedi dweud yw ei flaenoriaethau o ran gwella.

Rydym am gael eich barn ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu yn eich ardal chi a chewch gyfle i gyflwyno sylwadau yn y dyfodol. Yn y cyfamser hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost at info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a’m cynorthwyodd i lunio’r adroddiad hwn Steve Barry a Janet Villars o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau gwella Cymru (cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) â gofynion gwella Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Archwilydd Cyffredinol Cymru a’i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at Archwilydd Cyffredinol Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.
Rhif ffôn: 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

©Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2011

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

# Cynnwys


Pa fath o ardal yw Caerdydd? 04

A yw Cyngor Caerdydd yn cael ei reoli'n dda? 05

A yw Cyngor Caerdydd yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella? 08

A yw Cyngor Caerdydd yn gwasanaethu pobl yn dda? 10

A yw Cyngor Caerdydd yn cefnogi pobl mewn angen? 11

A yw Cyngor Caerdydd yn helpu pobl i ddatblygu? 15

A yw Cyngor Caerdydd yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw? 17

Beth y dylai Cyngor Caerdydd ei wneud? 21


**Atodiadau**


Atodiad 1 - Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn 22

Atodiad 2 - Gwybodaeth ddefnyddiol am Gaerdydd a Chyngor Caerdydd 24

Atodiad 3 - Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol 26

Atodiad 4 - Llythyr Blynyddol yr Archwilydd Penodedig 27

Atodiad 5 - Amcanion gwella Cyngor Caerdydd 30

Atodiad 6 - Cyfeiriadau 32

# Pa fath o ardal yw Caerdydd?

1 Caerdydd yw prifddinas Cymru, ac mae'n cwmpasu ardal ddaearyddol o 140 cilometr sgwâr. Adeiladwyd y ddinas ar wastadedd arfordirol sy'n codi i fryniau uwchben maestrefi gogledd y ddinas. O amgylch y ddinas mae cefn gwlad agored, yn arwain at Fro Morgannwg yn y gorllewin, Casnewydd yn y dwyrain a Rhondda Cynon Taf a Chaerffili yn y gogledd. Mae Caerdydd hefyd yn ganolfan dwristiaeth fawr ac aeth 14.6 miliwn o ymwelwyr yno yn ystod 2009.

2 Yn seiliedig ar yr amcangyfrif canol blwyddyn diweddaraf (2009), mae gan Gaerdydd boblogaeth o 336,238. Mae amcanestyniadau'r boblogaeth yn amcangyfrif y bydd cyfanswm y boblogaeth yn cynyddu i 468,181 erbyn 2033. Mae Cyngor Caerdydd (y Cyngor) o'r farn bod cyfrifiad poblogaeth 2001, y mae amcangyfrifon yn seiliedig arno, wedi tânamcangyfrif nifer y bobl yng Nghaerdydd. Mae hyn yn bwysig am mai ffigurau poblogaeth yw un o'r ffactorau a ystyrir pan wneir dyraniadau ariannol. Felly mae'r Cyngor yn annog dinasyddion i gwblhau ffurflenni'r cyfrifiad pan gynhelir y cyfrifiad nesaf ym mis Mawrth 2011.

3 Amcangyfrifir bod gan y ddinas 124,500 o gartrefi yn cynnwys tua 69 y cant o berchnogion-feddianwyr, 17 y cant yn byw mewn tai rhent cymdeithasol a 13 y cant yn byw yn y sector rhentu preifat. Mae proffil oedran y boblogaeth yn cynnwys tua 60,000 o blant (rhwng 0 ac 16 oed) a thua 44,000 o bobl hŷn (65 oed ac yn hŷn). Mae'r Cyngor yn amcangyfrif bod poblogaeth y myfyrwyr yn cynrychioli tua 10 y cant o gyfanswm y boblogaeth, sy'n dylanwadu ar gyfran y boblogaeth rhwng 20 a 29 oed, gan fod y grŵp oedran hwn yn cynnwys 21 y cant o'r boblogaeth o gymharu â 12 y cant ar gyfer gweddill de-ddwyrain Cymru.

4 Mae 40 y cant o weithlu'r ddinas yn cymudo o rannau eraill o Dde Cymru. Yr M4 yw'r brif draffordd sy'n cysylltu Caerdydd â Phen-y-bont ar Ogwr, ac Abertawe i'r gorllewin, a Chasnewydd, Bryste a Llundain i'r dwyrain. Mae'r A470 yn darparu cyswllt pwysig â chymoedd de, canolbarth a gogledd Cymru.

5 Gweinyddu cyhoeddus, addysg ac iechyd yw sectorau cyflogaeth mwyaf Caerdydd, yn darparu swyddi i 32 y cant o weithlu'r ddinas. Y ddinas yw prif ganolfan gwasanaethau ariannol a busnes Cymru sy'n cyflogi 20 y cant o weithlu'r ddinas. Mae 20 y cant arall o'r gweithlu yn gweithio yn y sectorau dosbarthu, gwestai a bwytai, sy'n dangos pwysigrwydd cynyddol y diwydiannau marchnata a thwristiaeth yn y ddinas.

ardal ddaearyddol
140 km$^2$
/////////////

poblogaeth
336,238
/////////////

60,000 yn 0-16 oed
44,000 yn >65 oed
/////////////

# A yw Cyngor Caerdydd yn cael ei reoli'n dda?

6 Mae rheoli sefydliad mor fawr sydd ag ystod eang o wasanaethau yn broses gymhleth. Ym mis Awst llynedd lluniodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad Asesu Corfforaethol sy'n cynnwys rhywfaint o fanylion am drefniadaeth y Cyngor a sut y caiff ei reoli. Nodir ein canfyddiadau yn Atodiad 3. Mae'r adroddiad llawn ar gael ar wefan y Cyngor neu ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn www.wao.gov.uk.

7 Casgliad cyffredinol yr adroddiad oedd: mae ymagwedd y Cyngor tuag at wella yn datblygu'n dda, wedi'i gefnogi gan drefniadau effeithiol ar y cyfan ac arweinyddiaeth gref.

8 Hynny yw, mae'r Cyngor wedi'i reoli'n dda ar y cyfan ac ar adeg ein gwaith roedd yn cyflwyno newidiadau sylweddol yn y ffordd y mae'n darparu gwasanaethau. Ceir arweinyddiaeth glir a chadarn o fewn y Cyngor ac mae cyllid yn cael ei reoli'n dda. Mae ymagweddau'r Cyngor tuag at reoli risg a rheoli ei staff hefyd yn gadarnhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor bob amser yn defnyddio TGCh yn dda ac roedd yn cydnabod bod gwendidau yn y ffordd y mae'n rheoli ei adeiladau ac roedd yn dechrau mynd i'r afael â hwy. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn adolygu'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud yn ei ddefnydd o TGCh ac yn y modd y mae'n rheoli ei adeiladau.


9 Mae gan y Cyngor system cyflwyno adroddiadau ar berfformiad a threfniadau adolygu sefydledig ond mae wedi cydnabod bod angen eu datblygu ymhellach er mwyn i ganlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau ddod yn gliriach ac er mwyn gallu nodi a oedd buddiannau bwriadedig ei raglen newid yn cael eu cyflawni.

10 O ganlyniad i'r hinsawdd ariannol, mae bron pob gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu gostyngiadau o ran arian. Arian refeniw yw'r arian a werir gan Gynghorau ar redeg a rheoli eu gwasanaethau. Mae'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar gyllideb cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad hyd at 2014-15 yn dangos y caiff y Cyngor gynnydd o tua £199,000 (0.1 y cant) yn yr arian refeniw a gaiff gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2011-12. Ar ôl caniatáu ar gyfer chwyddiant, mae hyn yn golygu lleihad mewn termau real o tua £7.4 miliwn (1.9 y cant). Mae ffigurau dangosol Llywodraeth y Cynulliad yn dangos lleihad yn arian refeniw y Cyngor ar gyfer 2012-13 a 2013-14.

11 Pennodd y Cyngor gyllideb refeniw o tua £517 miliwn yn 2009-10. Tua £533 miliwn oedd y gyllideb yn 2010-11. Yn ddiweddar, cadarnhaodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol bod datganiadau ariannol y Cyngor yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn.

12 Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu a mireinio'i ddull cynllunio ariannol tymor canolig. Dros yr haf ac ar ddechrau'r hydref mae'r Cyngor wedi gwneud gwaith pellach i asesu ei ofynion o ran adnoddau refeniw tebygol yn y dyfodol. Rhagwelir y bydd gofynion y gyllideb yn tyfu i tua £554 miliwn ar gyfer 2011-12 ac i £572 miliwn y flwyddyn ganlynol. Ar yr un pryd mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd ei ffrydiau incwm yn lleihau yn y dyfodol. Mae'n rhagweld diffyg o £21.5 miliwn yn 2011-12, £16.3 miliwn yn 2012-13 a £18.2 miliwn yn 2013-14.

**Arddangosyn 1: Gofyniad gwariant cyllideb a ragwelir a'r adnoddau sydd ar gael 2010-11 i 2013-14**
Mae'r Cyngor wedi nodi'r bwlch rhwng anghenion ariannu amcangyfrifedig ac arian a ragwelir sy'n ei helpu i gynllunio'r lleihad mewn arbedion a gwariant sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol




*Ffynhonnell: Cynigion ar y Gyllideb 2010/11 Cynllun Ariannol Tymor Canolig*

13 Rheolwyd cyllideb y Cyngor yn dda yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn sail gadarn i'r Cyngor wrth iddo wynebu cyfnod o newid sylweddol a thoriadau ariannol, gan fod ganddo hanes da o sicrhau y caiff ei wasanaethau eu darparu gyda'r adnoddau sydd ar gael iddo.

14 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio ar ystod o opsiynau er mwyn sicrhau arbedion. Yn gyffredinol mae'r cynigion yn ymwneud â:

- gwella effeithlonrwydd darparu gwasanaethau'r cyngor drwy gyflwyno'r rhaglen drawsnewid a lleihau amserlen y rhaglen i dair i bum mlynedd yn hytrach na'r tair i wyth mlynedd wreiddiol er mwyn cyflawni lefel sylweddol o arbedion ar gyfer 2010-11;
- strategaeth arbedion effeithlonrwydd gwasanaeth.

15 Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd ei gynigion yn arwain at arbedion digonol o ran costau i fantoli'r gyllideb refeniw dros y tair blynedd nesaf.

16 Arian cyfalaf yw'r arian a werir gan gynghorau ar seilwaith, er enghraifft adeiladau a chyfarpar newydd. Mae'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar gyllideb gyffredinol Llywodraeth y Cynulliad hyd at 2014-15 yn dangos bod disgwyl i'r arian cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor leihau'n sylweddol. Gan fod cynghorau'n gwneud ceisiadau am arian cyfalaf, nid yw'n bosibl bod yn gwbl sicr faint y bydd pob cyngor yn ei gael. Bydd lleihad o 14 y cant yng nghyfanswm yr arian cyfalaf sydd ar gael i gynghorau yn ystod 2011-12 (sef lleihad mewn termau real o 18.5 y cant). Nid oes unrhyw ffigurau swyddogol ar gael ar gyfer gwariant cyfalaf llywodraeth leol y tu hwnt i 2011-12 ond mae'n debygol o fod yn unol â lleihad cyffredinol yng ngwariant cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad, a fydd yn lleihau tua 34 y cant (sef tua 40 y cant mewn termau real) rhwng 2010-11 a 2013-14.

17 Yn ystod 2010-11 roedd angen £136.2 miliwn ar raglen gyfalaf y Cyngor ac mae wedi nodi rhaglen ddangosol o £113.5 miliwn yn 2011-12 ac £82.2 miliwn ar gyfer 2012-13. Mae'r Cyngor hefyd wedi nodi'r angen i wneud penderfyniadau anodd oherwydd y gostyngiad a ragwelir yn y cyllid sydd ganddo ar gyfer gwariant cyfalaf yn y dyfodol. Mae wedi nodi bod angen iddo wario tua £75 miliwn er mwyn mynd i'r afael ag ôl-groniant o ran cynnal a chadw a gwella ei adeiladau ei hun yn ogystal â £19 miliwn bob blwyddyn i gynnal a chadw priffyrdd, goleuadau traffig, pontydd a goleuadau stryd. Roedd hyn yn ogystal â phwysau i wario ar reoli gwastraff, grantiau cyfleusterau i'r anabl a datblygu seilwaith trafnidiaeth yn y ddinas. Bydd y Cyngor yn gwneud penderfyniadau ar sut y bydd yn defnyddio adnoddau cyfalaf sydd ar gael yn y misoedd nesaf.

18 Mae'r Cyngor wedi ariannu ei raglen gyfalaf drwy gyfuniad o fenthyciadau a defnyddio derbyniadau cyfalaf. Pennir cyfyngiadau ar fenthyciadau a gallant fod yn destun rheolaethau penodol gan lywodraeth ganolog a Llywodraeth y Cynulliad.

# A yw Cyngor Caerdydd yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella?

19 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor gyhoeddi cynlluniau ar gyfer gwella'r hyn a wna a sut y mae'n ei wneud. Mae'n rhaid i Gynghorau hefyd gyhoeddi rhestr o'r prif flaenoriaethau y maent yn bwriadu eu gwella bob blwyddyn. Mae'r Cyngor, ers peth amser, wedi gweithio mewn partneriaeth ag ystod o bartneriaid allweddol yn Fforwm Gweledigaeth - Prifddinas Falch (y Fforwm) i ddatblygu gweledigaeth gyffredin ar gyfer yr ardal ac i gytuno ar y camau gweithredu â blaenoriaeth sydd eu hangen i gyflawni'r weledigaeth honno. Mae'r Fforwm, a gadeirir gan Arweinydd y Cyngor, yn dwyn cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a sefydliadau gwirfoddol ynghyd.

20 Mae'r Fforwm wedi mabwysiadu saith canlyniad strategol y mae pob partner yn bwriadu gweithio tuag atynt ac a adlewyrchir yng Nghynllun Corfforaethol 2010-2013 y Cyngor a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2010. Mae'r canlyniadau y bydd yn ceisio eu cyflawni fel a ganlyn:

- bod pobl Caerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel;
- bod gan Gaerdydd economi sy'n ffyniannus a llewyrchus;
- bod pobl Caerdydd yn cyflawni eu potensial i'r eithaf;
- bod Caerdydd yn lle gwych i fyw, gweithio a chwarae ynddo;
- bod gan bobl Caerdydd amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy;
- bod pobl Caerdydd yn iach;
- bod cymdeithas Caerdydd yn un deg, cyfiawn a chynhwysol.

21 Yn ogystal â'r saith hyn, mae'r Cyngor wedi nodi wythfed er mwyn adlewyrchu ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth sef:

- Bod y Cyngor yn cyflawni canlyniadau gwell i'r ddinas a'i dinasyddion drwy bartneriaethau cryf.

22 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi'r blaenoriaethau allweddol sy'n gysylltiedig â phob un o'r canlyniadau strategol ac yn nodi'r mesurau a fydd yn cael eu defnyddio i helpu'r Cyngor i wybod a yw'n gwneud gwahaniaeth. Eleni diwygiodd y Cyngor strwythur ei Gynllun Corfforaethol, gan wneud y canlyniadau a fwriedir i ddinasyddion yn gliriach. Mae hefyd yn bwriadu llunio 'Cynllun Cyflawni Rhoi Polisi ar Waith' (y Cynllun) a fydd yn dwyn ynghyd weithgareddau'r gwasanaethau a fydd yn cyfrannu at gyflawni ei flaenoriaethau allweddol. Nid yw'r Cynllun eto ar waith, ond y disgwyl yw y bydd yn galluogi aelodau ac uwch reolwyr i ganolbwyntio ar ba mor dda mae blaenoriaethau'n cael eu cyflawni, drwy dynnu sylw at weithgareddau penodol o'r Cynlluniau Busnes Meysydd Gwasanaeth a ddefnyddir i gyfeirio gweithgareddau gwasanaethau unigol ym mhob rhan o'r Cyngor.

23 Mae'r Cyngor hefyd yn y broses o sicrhau bod y Cynlluniau Busnes Meysydd Gwasanaeth yn gyson â strwythur diwygiedig y Cynllun Corfforaethol, a bod gweithgaredd a gynllunnir yn ystyried yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.

24 Er bod blaenoriaethu ar gyfer gweithredu yn glir, mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen iddo ddatblygu mesurau sy'n caniatáu iddo werthuso canlyniadau gweithgaredd i ddinasyddion yn well. Mae rhai o'r mesurau presennol yn cynorthwyo'r broses werthuso, megis y mesurau sy'n ymwneud â rheoli gwastraff, ond mae llwyddiant yn llawer

anoddach i'w werthuso o ran canlyniadau eraill a fwriedir, megis 'cymdeithas deg, cyfiawn a chynhwysol' ac mae'r mesurau presennol a gaiff eu disgrifio yn canolbwyntio'n gyfyng ar safon tai cyngor.

25 Mae'r Cyngor wedi bod yn gofyn i ddinasyddion roi gwybod iddo am eu blaenoriaethau ers sawl blwyddyn ac mae'r Cynllun Corfforaethol yn dangos y cysylltiad rhwng yr hyn sy'n bwysig ym marn dinasyddion a'r y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud. Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn cydgysylltu'r ffordd y mae'n ceisio barn dinasyddion drwy 'Holi Caerdydd', sef prosiect sy'n cynnwys partneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol sy'n casglu barn defnyddwyr gwasanaethau ar bynciau penodol drwy wefan Holi Caerdydd.

26 Mae'r Cyngor yn dechrau ymgorffori'r dull rheoli 'Trawsnewid Cymdogaethau'. Mae hyn yn sefydlu Fforwm Ardal lleol sy'n dwyn gwahanol ddarparwyr gwasanaethau ynghyd i gydweithio â chymunedau lleol i nodi materion o bwysigrwydd lleol a, lle y bo'n bosibl, i gydgysylltu camau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â hwy. Ystyrir trawsnewid cymdogaethau yn ddatblygiad pwysig o ran gwella'r modd y darperir gwasanaethau lleol yn enwedig o ran adfywio cymdogaethau lleol a lleihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r Cyngor yn ceisio barn ar y dull gweithredu a'r ffyrdd y gallai ddatblygu yn y dyfodol.

27 Fel rhan o'n gwaith gwnaethom brofi systemau'r Cyngor ar gyfer casglu a chyflwyno adroddiadau ar ddangosyddion perfformiad ac rydym wedi canfod bod y systemau yn gyffredinol yn ddibynadwy. Er mwyn nodi a yw canlyniadau a fwriedir yn cael eu cyflawni mae angen i'r Cyngor edrych ar ystod ehangach o wybodaeth. Mae'n datblygu ei ddull gweithredu er mwyn iddo allu gwneud hyn yn well. Er enghraifft mae wedi datblygu gwybodaeth am ardaloedd o Gaerdydd drwy ddwyn gwybodaeth sydd gan nifer o wahanol sefydliadau ynghyd. Y cam nesaf fydd datblygu ffyrdd o werthuso canlyniadau'r camau a gymerwyd.

# A yw Cyngor Caerdydd yn gwasanaethu pobl yn dda?

28 Drwy Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol gobeithiwn yn raddol greu darlun o ba mor dda y mae'r Cyngor yn gwasanaethu pobl leol. Er mwyn gwneud hynny, bob blwyddyn byddwn yn edrych ar wasanaethau'r Cyngor a rhai o'i amcanion ar gyfer gwella fel y maent yn berthnasol i dair thema bwysig bywyd yng Nghaerdydd. Credwn, gyda'i gilydd, fod y themâu hyn yn cwmpasu'r prif bethau y mae cynghorau yn eu gwneud, Mae'r themâu fel a ganlyn:

- helpu i gefnogi pobl mewn angen;
- helpu pobl i ddatblygu;
- helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw.

29 Rydym wedi cymryd un o amcanion y Cyngor ei hun o dan bob un o'r themâu hyn ac wedi edrych ar rywfaint o'r gwaith y mae'n ei wneud i'w cyflawni. Mae Arddangosyn 2 yn crynhoi'r meysydd y gwnaethom edrych arnynt.

30 Dewiswyd yr amcanion hyn oherwydd gyda'i gilydd maent yn cwmpasu sawl maes allweddol o gyfrifoldebau'r Cyngor. Mae'r ddau amcan cyntaf yn haws eu mesur na'r trydydd amcan oherwydd mae 'cymdeithas deg, cyfiawn a chynhwysol' yn gallu golygu pethau gwahanol i bobl wahanol ac yn dibynnu, yn rhannol, ar ba mor ddiogel y mae pobl yn teimlo. Ar y cyfan, os yw'r Cyngor wedi dewis blaenoriaethu pethau, dylai fod yn gallu mesur eu heffaith o ran sut maent yn effeithio ar bobl leol.

31 Byddwn yn edrych ar amcanion gwella eraill y mae'r Cyngor yn eu pennu iddo'i hun yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

### Arddangosyn 2: Gwelliant ac amcanion y Cyngor

| Themâu Swyddfa Archwilio Cymru | Amcan y Cyngor | Maes gwasanaeth y gwnaethom edrych arno |
|---|---|---|
| Helpu i gefnogi pobl mewn angen | Mae cymdeithas Caerdydd yn un deg, cyfiawn a chynhwysol. Mae'r Cyngor yn cyflawni canlyniadau gwell i'r ddinas a'i dinasyddion drwy bartneriaethau cryf. | Gweithredu Strategaeth Gofalwyr Ifanc a oedd yn rhan o Gytundeb Gwella'r Cyngor ar y cyd â Llywodraeth y Cynulliad. |
| Helpu pobl i ddatblygu | Mae pobl Caerdydd yn cyflawni eu potensial i'r eithaf. | Gwella presenoldeb mewn ysgolion |
| Helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw | Mae cymdeithas Caerdydd yn un deg, cyfiawn a chynhwysol. | Model Rheoli Cymdogaethau Caerdydd |

# A yw Cyngor Caerdydd yn cefnogi pobl mewn angen?

32 Mae gan Gaerdydd boblogaeth sy'n tyfu ac sy'n debygol o barhau i dyfu. Mae'r boblogaeth yn heneiddio ac mae disgwyliad oes y bobl sy'n byw yn y ddinas yn hwy. Mae'r boblogaeth yn amrywiol a chanddi ystod eang iawn o anghenion, problemau a diwylliannau. Mae hyn yn cynnig heriau nas ceir yn y rhan fwyaf o awdurdodau eraill yng Nghymru ac mae'r awdurdod wedi buddsoddi mewn sicrhau y gall ymateb i'r rhain.

33 Mae'r pwyntiau canlynol yn darparu trosolwg byr o Gaerdydd yn deillio o Arolwg Iechyd Cymru 2009:

- nododd llai o bobl yng Nghaerdydd ar gyfartaledd fod ganddynt salwch hirdymor cyfyngol (22 y cant) na chyfartaledd Cymru (27 y cant);
- mae canran y bobl yng Nghaerdydd y nodwyd eu bod yn ordew (18 y cant) ychydig yn is na chyfartaledd Cymru (21 y cant);
- ar hyn o bryd mae gan tua naw y cant o'r boblogaeth dros 16 oed gyflwr iechyd meddwl sydd yr un fath â chyfartaledd Cymru;
- mae lefelau amcangyfrifedig camddefnyddio alcohol 2008-2009 (339 fesul 100,000 o'r boblogaeth) a chamddefnyddio cyffuriau (265 o bob 100,000 o'r boblogaeth) yn is na chyfartaleddau Cymru.

34 O ran rhoi tai i bobl, mae’r Cyngor yn gwneud cynnydd cyson tuag at gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru ar gyfer y cartrefi y mae’n berchen arnynt ac mae cyfradd y ddarpariaeth tai fforddiadwy ychwanegol yng Nghaerdydd wedi bod gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru yn gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae’r data ar gyfer delio â digartrefedd yn cyflwyno darlun cymysg, yn 2009-10 llwyddodd y Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau i 507 o gartrefi gydag 83 y cant o’r penderfyniadau yn cael eu gwneud o fewn 33 diwrnod gwaith. Dyma’r nifer fwyaf o gartrefi lle cyflawnwyd dyletswyddau er bod y data yn dangos bod yr amser cyfartalog ar gyfer cyflawni dyletswyddau yng Nghaerdydd yn 172 diwrnod, sy’n uwch na’r cyfartaledd o 121 o ddiwrnodau ledled Cymru.

35 O ran pa mor gyflym y mae'r Cyngor yn ymateb o ran cefnogi pobl mewn angen, dengys data a gofnodwyd fod y Cyngor wedi cymryd 189 o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl, sef un o'r amserau cyflawni cyflymaf yng Nghymru. Y nifer o ddiwrnodau a gymerodd y Cyngor ar gyfartaledd rhwng yr ymholiad cyntaf ynghylch darparu gofal i oedolyn a chwblhau cynllun gofal unigol yn 2009-10 oedd ychydig yn fwy na 30 diwrnod. Mae hyn wedi gwella ac yn debyg i gyfartaledd Cymru.

36 Rôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yw cyflawni asesiadau proffesiynol a llunio barn broffesiynol ynghylch gofal cymdeithasol, gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol a thrwy hynny annog darparwyr y gwasanaethau i wella. O dan ddeddfwriaeth newydd ceir fframwaith newydd ar gyfer gwaith arolygu, gwerthuso ac adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

37 Yn 2010 roedd yn ofynnol i Gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol lunio adroddiad hunanasesu ar ba mor dda roedd gwasanaethau'n cael eu darparu yn 2009-10. Cyflawnodd AGGCC adolygiad o’r adroddiad, i asesu cryfderau allweddol a meysydd i’w datblygu y mae’n eu defnyddio i baratoi cynllun arolygu ac adolygu unigol ar gyfer pob cyngor. Mae dadansoddiad AGGCC, sy’n dangos y cryfderau allweddol a’r meysydd penodol y mae angen eu datblygu, ar gael mewn mwy o fanylder ar ei gwefan. Ceir crynodeb o’r prif negeseuon isod.

38 Canfu AGGCC dystiolaeth o arweinyddiaeth ac atebolrwydd cadarn yn y Cyngor a blaenoriaethau clir a oedd yn darparu strwythur ar gyfer cynllunio perfformiad a busnes. Nodwyd nifer o fentrau newydd a luniwyd i wella gwasanaethau ond roedd angen i'r Cyngor sicrhau y gallai ddangos canlyniadau gwell i'w ddefnyddwyr gwasanaeth o ganlyniad i'r camau a gymerwyd.

39 Cydnabuwyd diogelwch oedolion sy'n agored i niwed fel blaenoriaeth uchel i'r Cyngor ac roedd wrthi'n gweithredu'r argymhellion a wnaed gan AGGCC yn dilyn ei hadolygiad o drefniadau ym mis Rhagfyr 2009.

40 Mae dangosyddion perfformiad yn dangos bod y Cyngor yn helpu mwy o bobl i fyw gartref, bod ganddo gynlluniau i helpu mwy o bobl i barhau i fyw'n annibynnol ac y bydd yn asesu effaith ei gamau gweithredu yn ystod 2010-11. Mae nifer y bobl dros 75 oed y ceir oedi wrth eu rhyddhau o'r ysbyty yn parhau'n uchel ac mae'r Cyngor wedi nodi rhai o'r materion sy'n cyfrannu at hyn ac mae'n gweithio gyda phartneriaid iechyd i oresgyn problemau sy'n rhwystro pobl rhag gadael yr ysbyty a darparu pecynnau gofal amserol. Mae gan y Cyngor ethos cryf o hyrwyddo ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth ond mae'n cydnabod bod lle i wella wrth ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, gwella trefniadau cynllunio sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac ymgysylltu â grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd.

41 Ym mis Hydref 2009 cynhaliodd AGGCC adolygiad o'r trefniadau ar gyfer gwarchod plant gan ystyried hunanddadansoddiad a gwblhawyd gan y Cyngor. Nododd hunanddadansoddiad y Cyngor ddealltwriaeth realistig o ansawdd y gwasanaethau ac roedd yn gydnaws â chanfyddiadau'r adolygiad. Roedd gwarchod plant yn flaenoriaeth i'r cyngor. Canfu'r adolygiad arwyddion o berfformiad gwell o ran prydlondeb a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth a chanllawiau er bod ansawdd y gwaith a wnaed yn parhau'n anghyson. Amlinellwyd amrywiaeth o gryfderau penodol a meysydd penodol i wella yn yr adroddiad.

42 Mewn gwasanaethau plant, ymhlith y cryfderau a nodir y mae'r gallu i wella mewn rhai meysydd perfformiad, er enghraifft yn yr ymateb cychwynnol i atgyfeirio ac adolygu achosion, a'r newidiadau y mae'n eu gwneud i batrwm y ddarpariaeth gwasanaethau sy'n gwella hyblygrwydd ac yn rhoi mwy o ddewis. Ymhlith y meysydd allweddol i wella mae parhau i wella prydlondeb ac ansawdd arferion asesu a rheoli gofal yn ogystal â gwella canlyniadau iechyd ac addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal.

43 Cred AGGCC fod y Cyngor wedi dangos ymrwymiad i flaenoriaethu buddsoddiad mewn gwasanaethau plant. Mae cynllunio strategol yn arwain at ddatblygu gwasanaethau newydd a rhai partneriaethau newydd â maes iechyd. Mae angen i'r Cyngor sicrhau y gall fonitro'r canlyniadau a ddarperir drwy weithredu ei strategaethau comisiynu a lleoli. Nodwyd yr angen i ddatblygu trefniadau pellach i wella ansawdd y perfformiad ym maes gwarchod plant, gwella canlyniadau iechyd ac addysg i blant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal ac ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn y broses cynllunio gofal.

## A yw'r Cyngor yn gwella'r cymorth a roddir i ofalwyr ifanc?

44 Mae’r Cyngor a’i bartneriaid wedi bod yn nodi gofalwyr ifanc, yn dechrau asesu eu hanghenion a’u diwallu ac yn datblygu’r ffyrdd y gellir gwerthuso effaith yr hyn sy’n cael ei wneud. Er nad yw'r Cyngor yn gallu dangos canlyniad beth mae'n ei wneud i ofalwyr ifanc eto mae wrthi'n rhoi'r elfennau angenrheidiol ar waith.

45 Gofalwyr ifanc yw'r rheini o dan 18 oed sydd â chyfrifoldebau gofalu am rywun sydd â salwch corfforol neu feddyliol, neu anabledd corfforol neu ddysgu, neu broblem cyffuriau neu alcohol. Mae'r mwyafrif yn gofalu am riant ond gallant hefyd fod yn gofalu am frawd neu chwaer, nain neu daid neu aelod arall o'r teulu. Mae'r rôl bwysig hon yn brofiad cadarnhaol sy'n rhoi boddhad i lawer o bobl ifanc a'u teuluoedd ond mae gofalwyr ifanc yn wynebu risg o fod mewn sefyllfa lle mae'r cyfrifoldebau hyn yn amhriodol ac yn dechrau effeithio ar eu lles a'u haddysg eu hunain. Mae'r Cyngor a'i bartneriaid am sicrhau eu bod yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ddiwallu anghenion gofalwyr ifanc, gan eu cefnogi fel pobl ifanc ac o ran eu rôl gofalu. Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid i'r Cyngor yn gyntaf nodi gofalwyr ifanc ac asesu eu hanghenion.

46 Mae'r Cyngor yn aelod o Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Caerdydd a ddatblygodd Cyd-Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Ifanc 2009. Nifer y gofalwyr ifanc a nodwyd yng Nghyfrifiad 2001 oedd tua 1,000 er bod y gwaith y mae'r bartneriaeth wedi ei wneud yn awgrymu bod y nifer mor uchel â 3,000 o bosibl. Dros y tair blynedd ddiwethaf mae'r dangosyddion perfformiad statudol a gyhoeddwyd gan y Cyngor yn dangos bod canran y gofalwyr ifanc y mae'r Cyngor yn gwybod amdanynt sy'n cael asesiad wedi gostwng o 70.6 y cant i 68.4 y cant. Nid yw edrych ar y canran yn unig bob amser yn rhoi'r darlun cyflawn oherwydd wrth i'r Cyngor nodi mwy o bobl a allai gael budd yna gall cyfran y rhai a asesir ostwng. Mae cyfanswm y gofalwyr ifanc a asesir bob blwyddyn wedi cynyddu o 12 dair blynedd yn ôl i 50 yn y flwyddyn ddiwethaf.

47 Mae'r strategaeth yn nodi saith dangosydd a fydd yn helpu'r Cyngor i wella'r ffordd y mae'n monitro ansawdd ei wasanaethau ar gyfer gofalwyr ifanc. Er y bydd y dangosyddion hyn yn rhoi darlun bras o'r hyn sy'n digwydd, mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi nodi bod angen datblygu dangosyddion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Tuag at ddiwedd y flwyddyn mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn bwriadu datblygu fframwaith rheoli perfformiad newydd a fydd yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau a pha mor dda mae'r gwasanaeth yn gweithio.

48 Eleni mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar wella ymwybyddiaeth, er mwyn galluogi gofalwyr ifanc, gweithwyr cymdeithasol, athrawon a gweithwyr eraill y cyngor i fanteisio ar wasanaethau. Mae tîm Gwasanaethau Plant y Cyngor yn nodi bod angen gwneud llawer iawn o waith hyrwyddo o hyd er mwyn sicrhau y rhoddir yr hyder i weithwyr proffesiynol a gofalwyr ifanc fel y gallant fanteisio ar wasanaethau a chael eu hawliau.

49 O ganlyniad i nodi bod angen gwella'n sylweddol y wybodaeth sydd ar gael i lywio ei brosesau gwneud penderfyniadau, mae'r Cyngor wedi cynnal sawl archwiliad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r archwiliadau hyn wedi edrych ar wahanol agweddau ar ddarparu gwasanaethau i ofalwyr ifanc gan gynnwys y materion sy'n wynebu gofalwyr ifanc mewn ysgolion cynradd a gwella'r defnydd o gofnodion CareFirst.

50 Er mwyn gwella'r ffordd y maent yn monitro ansawdd eu gwaith mae Gwasanaethau Plant wedi nodi bod angen iddynt ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau yn lle cyfrif pethau fel nifer y gofalwyr ifanc a asesir. Y canlyniadau hynny yw nodi a yw pobl wedi cael eu helpu'n wirioneddol gan y gwasanaeth. Mae'r ymagwedd hon yn ei chamau cynnar ac mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddatblygu ac ymgorffori'r ymagwedd hon.

51 Mae'r Cyngor wedi cynyddu cyllidebau ar gyfer gwasanaethau i ofalwyr ifanc. Mae'r gwasanaeth cymorth dwys ychwanegol a gomisiynwyd gan y Cyngor gan y sefydliad Gweithredu dros Blant yn enghraifft o'r ymagwedd hon. Er y caiff rhai gwasanaethau, megis swydd y swyddog datblygu, eu hariannu drwy arian Cymorth a ddaw i ben yn 2011.

52 Byddwn yn gwerthuso effaith yr hyn sydd wedi digwydd y flwyddyn nesaf.

# A yw Cyngor Caerdydd yn helpu pobl i ddatblygu?

53 Yn 2009 roedd gan 41.7 y cant o oedolion o oedran gweithio gymwysterau lefel 4 NQF neu uwch, ac roedd hyn llawer yn uwch na chyfartaledd Cymru o 29.6 y cant sy'n golygu bod gan y Cyngor yr ail ganran uchaf yng Nghymru. Mae canran yr oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau wedi gostwng yn raddol ers 2001. Canran yr oedolion o oedran gweithio yng Nghaerdydd heb gymwysterau yn 2008 oedd 11.8 y cant, sef ychydig yn llai na'r cyfartaledd yng Nghymru o 14.6 y cant.

54 Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru yn 2008-09 oedd tua 8,600 fesul bob mil o'r boblogaeth, sef un o'r cyfraddau uchaf o blith y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o tua 5,900 o ymweliadau fesul mil o'r boblogaeth.

55 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Yr awdurdodau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn sy'n bennaf cyfrifol am ystod a safon y gwasanaethau hynny, gan weithio yn unol â fframwaith statudol a chanllawiau'r Bwrdd. Disgwylir i bob Awdurdod Lleol gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i'r Bwrdd sy'n egluro sut y gweithredwyd ei gynllun. Mae hyn yn caniatáu i'r Bwrdd gynnig cyngor o ran sut y gallai Cyngor wella'i drefniadau lleol. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal ei adolygiadau ei hun i asesu'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg ac i hyrwyddo gwelliant.

56 Yn 2009, gallai 15.9 y cant o boblogaeth Caerdydd siarad Cymraeg, o gymharu â 25.6 y cant o boblogaeth Cymru. Yn 2009, aseswyd 9.2 y cant o ddisgyblion yn Gymraeg fel iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 3 (CA3 disgyblion 11 i 14 oed), mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru o 15.9 y cant y flwyddyn honno. Aseswyd 11.2 y cant o ddisgyblion yn Gymraeg fel iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 2 (CA2 disgyblion 7 i 11 oed), mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru o 19.1 y cant.

57 Mae'r bwrdd wedi canmol y Cyngor am yr adroddiad a'r argymhellion a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar ddarpariaeth gweithgareddau chwarae a hamdden drwy gyfrwng y Gymraeg. Cafodd y Cyngor ei ganmol hefyd am ei weithdrefnau monitro mewnol ac allanol. Canfu'r Bwrdd fod gwefan, dogfennaeth etholiadol a hysbysebion statudol a recriwtio'r Cyngor yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg ar y cyfan. Gofynnodd y Bwrdd i'r Cyngor fynd i'r afael â thri mater yn ymwneud â'r wefan. Canfu'r Bwrdd hefyd fod y mwyafrif o'r cwynion a gaiff am y Cyngor yn ymwneud â chyfieithu deunyddiau ac arwyddion dwyieithog. Felly bydd yn rhaid i'r Cyngor fynd i'r afael â'r materion hyn neu bydd yn wynebu'r risg o fethu â chydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg ei hun.

58 Cyrhaeddiad y dangosydd pwnc craidd yw canran yr holl ddisgyblion CA2 sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y cyfuniad o Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth. Ffynhonnell hyn yw canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a gyflwynir i Lywodraeth y Cynulliad gan ysgolion. Canran y disgyblion yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yn CA2 yng Nghaerdydd oedd 78.8 y cant. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 77.0 y cant. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yn CA2 wedi codi ers 1999.

59 Mewn ysgolion a gynhelir gan y cyngor mae 1.4 y cant o'r holl ddisgyblion 15 oed (gan gynnwys y rheini sydd yn derbyn gofal y cyngor) yn gadael addysg, hyfforddiant neu ddysgu'n seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy, mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru o 0.9 y cant. Mae'r mwyafrif o gynghorau eraill yng Nghymru yn cyflawni gwell canlyniadau na hyn.

60 Mae Estyn, sef Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn edrych ar ba mor dda y mae cynghorau yn helpu plant a phobl ifanc i feithrin gwybodaeth a sgiliau. Mae'n arolygu ysgolion, colegau addysg bellach a sefydliadau hyfforddi ac yn llunio barn ar ba mor dda y mae cynghorau yn cefnogi'r darparwyr addysg hyn. Mae Estyn, drwy ei dimau rhanbarthol, yn dadansoddi gwybodaeth am berfformiad, yn ymweld ag ysgolion ac yn cyfarfod yn rheolaidd â chyfarwyddwyr addysg er mwyn llunio barn ar rôl y Cyngor a pherfformiad ym maes addysg yn yr ardal. Disgwylir i arolygiad gael ei gynnal ddechrau 2011. Bydd yr adroddiad arolygu ar gael ar wefan Estyn a byddwn hefyd yn cyflwyno adroddiad ar y canlyniad y flwyddyn nesaf.

## A yw'r Cyngor yn helpu i wella presenoldeb mewn ysgolion?

61 Ymysg blaenoriaethau'r Cyngor mae rhoi Strategaeth Ymgysylltu â Phobl Ifanc ar waith er mwyn gwella presenoldeb, ymddygiad ac ymgysylltiad pobl ifanc ag addysg a hyfforddiant. Er ei fod wedi bod yn gwella, mae presenoldeb mewn ysgolion yn un o ddeg blaenoriaeth Gwasanaeth Ysgolion a Dysgu Gydol Oes y Cyngor. Mae'r Cyngor yn datblygu ffyrdd newydd o ddarparu'r gwasanaeth a mesur ei effaith. Wrth ddatblygu mesurau gwell ar gyfer presenoldeb mewn ysgolion, dylai'r Cyngor allu dangos beth mae'n ei wneud a'r gwahaniaeth mae'n ei gael.

62 Ar hyn o bryd, 93 y cant ar gyfer ysgolion cynradd a 91 y cant ar gyfer ysgolion uwchradd yw canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion. Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn gwella er nad yw perfformiad Caerdydd yn cymharu'n ffafriol ag eraill yng Nghymru, ac mae yn y pedwerydd safle ar ddeg o blith y 22 o awdurdodau lleol.

63 Mae sawl rheswm pam nad yw disgybl yn mynd i'r ysgol, sydd wedi arwain y Cyngor i symud i ffwrdd o'i ddull gweithredu traddodiadol o gynnig cymorth yn ganolog i ddatblygu atebion a dulliau gweithredu lleol. Mae'r dull newydd o weithredu yn adeiladu ar ganlyniadau cynllun peilot a gynhaliwyd y llynedd yn Ysgol Uwchradd Fitzalan a'i chlwstwr o ysgolion cynradd. Gwnaeth y cynllun peilot hwn ganiatáu i'r ysgol a'i phartneriaid nodi a rhannu blaenoriaethau â'r Cyngor ar gyfer cydweithio a defnyddio adnoddau presennol yn well. Arweiniodd hyn yn uniongyrchol at y Gwasanaeth Ysgolion a Dysgu Gydol Oes yn ailstrwythuro'r ffordd y mae'n gweithio gydag ysgolion drwy fabwysiadu dull gweithredu yn y gymdogaeth.

64 Dull gweithredu'r Cyngor yw adeiladu 'Tîm o Amgylch yr Ysgol'. Datblygwyd saith o glystyrau ysgolion yn seiliedig ar ardaloedd cymunedol sy'n integreiddio â chwe thîm Rheoli Cymdogaeth ardaloedd y ddinas sefydledig. Mae'r Gwasanaeth Ysgolion a Dysgu Gydol Oes yn gweld y dull gweithredu hwn fel newid sylfaenol yn y ffordd y mae'n darparu ei wasanaethau ac yn cyfathrebu ag ysgolion, ac fe'i cynlluniwyd i wneud defnydd gwell o'r adnoddau sydd ar gael.

65 Wrth fesur pa mor llwyddiannus yw hwn, ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth Ysgolion a Dysgu Gydol Oes yn datblygu'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd gyntaf ar gyfer rhaglen Dechrau'n Deg y Cyngor. Byddwn yn cyflwyno adroddiad llawnach ar y canlyniadau a gyflawnwyd y flwyddyn nesaf.

# A yw Cyngor Caerdydd yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw?

66 Wrth lunio darlun o ffyniant yr ardal ceir ystod gymysg o wybodaeth. Ar y naill law mae Caerdydd a'r ardaloedd o'i chwmpas yn cynhyrchu bron 20 y cant o'r nwyddau a'r gwasanaethau yng Nghymru mewn blwyddyn, mae'r enillion cyfartalog wythnosol yn agos i'r uchaf yng Nghymru ac mae lefelau cyflogaeth yn debyg i gyfartaledd Cymru. Ar y llaw arall, mae diweithdra ymysg trigolion oedran gweithio yn uwch na chyfartaledd Cymru ac mae mwy o boblogaeth Caerdydd, yn gymesur, yn byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Adlewyrchir rôl y ddinas fel prifddinas y wlad ac fel darparwr gwasanaethau lleol ar gyfer pobl leol yn y Cynllun Corfforaethol ac yn yr ystod o flaenoriaethau y mae'r Cyngor yn eu hyrwyddo.

67 Mesurir glendid priffyrdd a thir perthnasol gan y ganran sy'n cyrraedd safon dderbyniol pan gânt eu harolygu. Yng Nghaerdydd disgynodd y ganran sy'n cyrraedd y safon o 88 y cant yn 2007-08 i 87 y cant yn 2008-09. Yn ystod 2009-10 adolygodd y Cyngor y drefn o ddarparu gwasanaethau glanhau'r stryd a gwnaeth y gyfradd glendid wella i 89 y cant er bod hyn yn is na'r cyfartaledd o 95 y cant ar gyfer Cymru.

68 Mae gan Gaerdydd 86 o gilomedrau o ffyrdd A. Amcangyfrifodd arolwg flynyddol o boblogaeth 2009 bod tua 78,800 o deithwyr yn teithio i Gaerdydd bob dydd gyda 62,700 yn teithio mewn car. Amcangyfrifodd arolwg llif traffig blynyddol y Cyngor bod tua 309,000 o gerbydau yn 2009 wedi croesi llinell arolwg y sir bob diwrnod. Yn 2008-09 roedd 4.8 y cant o brif ffyrdd A a oedd mewn cyflwr gwael yn cyfateb yn fras i gyfran Cymru gyfan. Yn 2009-10, ystyriwyd bod 5 y cant o ffyrdd A mewn cyflwr gwael ac mae'r Cyngor yn disgwyl i'r cyflwr hwnnw waethygu ymhellach gan ei fod yn rhagweld na fydd ganddo'r arian ar gael i wella'r sefyllfa. Yn 2007 nodwyd, er bod y Cyngor wedi llunio Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd, fel llawer o Gynghorau yng Nghymru roedd yn wynebu priffyrdd sy'n dirywio a llai o adnoddau ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau. Er bod y cynllun rheoli asedau priffyrdd yn darparu fframwaith strategol ar gyfer ymdrin â phriffyrdd nid oedd yr adnoddau ariannol a oedd ar gael yn ddigonol i atal strwythur y priffyrdd rhag dirywio. Byddwn yn adolygu'r trefniadau yn ystod y flwyddyn nesaf.

## A yw'r Cyngor yn rheoli gwastraff yn effeithiol?

69 Mae'r Cyngor wedi bod yn gwella'r ffordd y mae'n rheoli ei wastraff. Mae'r Cyngor wedi paratoi Strategaeth Gwastraff hirdymor gynhwysfawr ddrafft ond ni ellir ei gorffen nes bod Llywodraeth y Cynulliad yn cwblhau ei Chynllun Sector Gwastraff Trefol. Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff i tua 124,500 o gartrefi. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i Gynghorau helpu dinasyddion i ailgylchu gwastraff ac mae'n casglu gwybodaeth am gyfraddau ailgylchu yn ogystal â gwybodaeth am y gwahanol fathau o wasanaethau a ddarperir gan wahanol Gynghorau. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi pennu targedau i bob Cyngor yng Nghymru wella faint o wastraff a ailgylchir a lleihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi. Mae methu â chyflawni'r targedau yn debygol o arwain at gosbau ariannol. Roedd Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i Gynghorau ailgylchu neu gompostio 40 y cant o wastraff a gesglir erbyn Mawrth 2010, a chyflawnodd y Cyngor 39 y cant ond mae wedi dangos gwelliant graddol ers 2007.

70 Er y gall cynghorau ailgylchu neu gompostio gwastraff penodol mae gwastraff arall, a elwir yn 'wastraff gweddilliol' na gaiff ei gasglu i'w ailgylchu neu gompostio ar hyn o bryd. Mae angen i gynghorau ddod o hyd i ffordd o ymdrin â'r

gwastraff hwn sy'n lleihau faint o wastraff a anfonir yn y pen draw i safleoedd tirlenwi. Mae'r Cyngor mewn partneriaeth (Prosiect Gwyrdd) â phedwar awdurdod lleol arall (Bro Morgannwg, Casnewydd, Sir Fynwy a Chaerffili) i gaffael cyfleuster trin gwastraff gweddilliol. Bydd y cyfleuster hwn yn prosesu'r gwastraff gweddilliol a anfonir ar hyn o bryd i safleoedd tirlenwi. Caiff deunyddiau y gellir eu hailgylchu eu gwahanu oddi wrth y gwastraff, a chaiff y gwastraff sy'n weddill ei drin mewn proses sy'n lleihau'r cyfaint a'r pwysau'n sylweddol. Yna caiff y deunydd sy'n weddill ei anfon i safleoedd tirlenwi.

71 Erbyn 2025 mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i'r Cyngor ailgylchu neu gompostio 75 y cant o'r gwastraff a gesglir. Mae'r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth uchel i gynaliadwyedd a rheoli gwastraff drwy gynyddu ailgylchu/compostio a lleihau gwastraff ac mae'n edrych ar y ffyrdd y gall gyflawni'r targed hwn drwy newid y ffyrdd y mae'n casglu gwastraff a'r cyfleoedd a gaiff i ailgylchu deunyddiau. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, ni wnaed penderfyniadau ar estyn y gwaith o gasglu gwahanol fathau o wastraff neu amlder y casglu. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn ystod y flwyddyn nesaf.

## A yw'r Cyngor yn helpu i adeiladu cymuned ddiogelach a chryfach?

72 Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn gweithio i leihau troseddau ym mhob rhan o'r ddinas. Mae gan Gaerdydd y gyfradd droseddu uchaf yng Nghymru ac mae'r gyfradd hon bron 50 y cant yn uwch na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae'r gyfradd troseddu wedi gostwng ar y cyfan dros y saith mlynedd ddiwethaf a gostyngodd 13 y cant yn y flwyddyn flaenorol. Cyfran uchaf y troseddau hyn yw difrod troseddol (22 y cant) a throseddau lladrata eraill (22 y cant).

73 Mae'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn (1998) yn rhoi rhwymedigaeth statudol ar awdurdodau lleol a'r Heddlu i ffurfio partneriaethau aml-asiantaethol er mwyn lleihau trosedd ac anrhefn ar draws ardal yr awdurdod lleol. Ffurfiwyd y bartneriaeth 'Prifddinas Ddiogelach' er mwyn ymateb i'r rhwymedigaeth hon ac mae'n dwyn partneriaid allweddol ynghyd er mwyn mynd i'r afael â materion diogelwch cymunedol a throsedd ac anrhefn. Nod Prifddinas Ddiogelach yw cydweithio i gyflawni gostyngiadau parhaol o ran cyfraddau troseddau, ofn trosedd ac ymddygiad anghymdeithasol yn ogystal â darparu cyngor ar atal troseddau a diogelwch cymunedol a thawelu meddyliau. Ceir rhagor o wybodaeth am y bartneriaeth a'i gwaith ar ei gwefan www.safercapital.co.uk

74 Mae rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys y 'Rhaglen Trawsnewid Cymdogaethau'. Nod y rhaglen yw lleihau'r bwlch rhwng cymdogaethau fel y'i mesurir gan ddangosyddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol allweddol a phrofiad y dinesydd. Yn lleol ystyriwyd bod y rhaglen yn gweithio, yn ymgysylltu â'r gymuned ac yn mynd i'r afael â phroblemau lleol, ac mae hyn yn ei dro wedi gwella'r amgylchedd ac wedi lleihau troseddau 10 y cant yn lleol. Y syniad y tu ôl i'r dull gweithredu hwn yw ymgysylltu â phartneriaid er mwyn targedu gwelliannau mewn ardaloedd penodol sydd â'r angen mwyaf. Ym marn y Cyngor y dull hwn o weithredu yw'r ffordd ymlaen ac mae'n bwriadu ei ddefnyddio fel ffordd o gyflawni rhai o'r amcanion 'cymdeithas deg, cyfiawn a chynhwysol' a 'phobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel'.

75 Rhan bwysig o'r cynllun rheoli cymdogaeth yw defnyddio'r wybodaeth am berfformiad a gwybodaeth leol i nodi blaenoriaethau a nodi lle y gellir cyflawni gwelliannau yn y tymor byr ac yn yr hirdymor. Mae'r Cyngor wedi cefnogi hyn drwy ddatblygu fframwaith rheoli perfformiad integredig

sy'n gyson â'r chanlyniadau allweddol bwriadedig yn y Cynllun Corfforaethol. Fodd bynnag, nid oedd y fframwaith rheoli perfformiad integredig a gefnogwyd gan ganolfan ddata wedi'i gyflawni'n llawn oherwydd cafwyd rhai anawsterau technegol a ffisegol o ran rhannu gwybodaeth.

76 Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'n debygol y gellir dod o hyd i arian ychwanegol ar gyfer y rhaglen trawsnewid cymdogaethau ac mae'n bwriadu defnyddio adnoddau presennol yn wahanol er mwyn adeiladu timau o fewn y Cyngor a gyda sefydliadau partner er mwyn mynd i'r afael â materion lleol penodol.

77 Edrychwyd ar un prosiect yn fwy manwl, sef prosiect Parc ABC-Tarwick Drive yn Ardal Dwyrain Caerdydd lle gwelwyd bod troseddau lleol yn costio mwy na £200,000 i'r Cyngor a'i bartneriaid mewn dwy flynedd o ran gwaith atgyweirio ac achosion o alw swyddogion allan. Cytunodd yr asiantaethau i weithio gyda'i gilydd a chyflawni rhai gwelliannau ar unwaith megis glanhau graffiti, gwella goleuadau stryd a threfnu mwy o batrolau'r heddlu. Cynhaliwyd ffyrdd newydd o ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned a gwnaeth dros 350 o drigolion lleol gyfrannu syniadau i'r cynlluniau datblygu ar gyfer Parc ABC. Bellach cafwyd arian drwy'r Cynllun Adnewyddu Cymdogaeth i gyflawni'r gwelliannau hyn ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu a chyflawni cynllun adfywio tai tymor hwy.

78 Ym mis Medi 2010 cyhoeddodd Prif Arolygydd Gwasanaethau Prawf Ei Mawrhydi adroddiad ar ei arolygiad o'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Archwiliodd yr arolygwyr sampl gynrychioliadol o achosion troseddau ieuenctid o'r ardal, gan farnu pa mor aml y cyflawnwyd agweddau ar waith Diogelu'r Cyhoedd ac Amddiffyn i lefel ansawdd ddigon uchel. Mae Arddangosyn 3 yn dangos canlyniadau'r arolygiad o bob un agwedd o'r gwasanaeth.

79 Ar y cyfan, caiff y set hon o ganfyddiadau ei hystyried yn galonogol iawn ac yn uwch na chyfartaledd Cymru. Canfu'r arolygiad dîm lle roedd ymrwymiad gan staff i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r plant a'r bobl ifanc o dan eu goruchwyliaeth. Cafodd y gwaith fudd o gyfraniadau cadarnhaol ystod o asiantaethau partner yn yr un lleoliad. Canfu'r arolygiad fod angen gwneud mwy i sicrhau bod cynlluniau rheoli risg a rheoli pobl sy'n agored i niwed o safon dda yn cael eu llunio a bod camau gweithredu'n cael eu cymryd ym mhob achos perthnasol. Roedd yr arolygwyr o'r farn, o dan arweinyddiaeth y tîm rheoli, fod y rhagolygon yn dda y byddai Tîm Troseddau Ieuenctid Caerdydd yn ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad ac yn parhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig.

**Arddangosyn 3: Arolygiad y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid**
Dangosodd canfyddiadau'r arolygiad berfformiad yn well na'r cyfartaledd

| Agwedd | Caerdydd | Cyfartaledd Cymru |
|---|---|---|
| **Gwarchod**: pa mor aml y cymerwyd pob cam rhesymol mewn modd digon da i sicrhau bod y risg o niwed i blentyn neu berson ifanc mor fach â phosibl. | 72% o'r amser | 64% |
| **Diogelu'r Cyhoedd**: pa mor aml roedd gwaith yn cael ei wneud mewn modd digon da i sicrhau bod y risg bod unigolyn yn niweidio eraill mor fach â phosibl. | 73% o'r amser | 60% |
| **Diogelu'r Cyhoedd**: pa mor aml roedd gwaith yn cael ei wneud mewn modd digon da i sicrhau bod unigolyn yn llai tebygol o aildroseddu. | 78% o'r amser | 66% |

*Ffynhonnell: Arolygiad Achos Craidd o waith ar droseddau ieuenctid yng Nghaerdydd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (h) Hawlfraint y Goron*

# Beth y dylai Cyngor Caerdydd ei wneud?

80 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

**Cynigion a wnaed yn ein gwaith cynharach**

- pennu blaenoriaethau clir ar gyfer gweithredu o ystyried bod llai o adnoddau ar gael;
- pennu mesurau canlyniadau sy'n galluogi'r Cyngor i nodi effaith ei weithgarwch ar y gymuned a defnyddwyr gwasanaethau;
- pennu trefniadau corfforaethol ar gyfer ariannu, adnewyddu a datblygu maes TGCh yn llwyr;
- sicrhau bod cynlluniau busnes gwasanaethau yn cynnwys amcangyfrifon realistig o adnoddau ariannol, adnoddau dynol ac adnoddau eraill sydd eu hangen i gyflawni'r camau gweithredu arfaethedig.

81 Gwnaed cynigion ar gyfer gwella yn ein hadroddiad asesu corfforaethol ac nid ydym wedi nodi bod angen unrhyw gynigion newydd ers cynnal yr asesiad hwn - felly dim ond ategu bod angen datblygu mesurau cliriach sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a wnawn.

# Atodiad 1

## Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn

**Yr Archwilydd Cyffredinol**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae'n cael ei benodi gan Ei Mawrhydi Y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol drwy archwilio amryw o agweddau ar sut mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Crëwyd Swyddfa Archwilio Cymru yn 2005 drwy uno'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad a'i chyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Yn ogystal ag ymgymryd ag archwilio ariannol, rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw edrych ar sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian y cyhoedd, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ddeddf a greodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi ymestyn pwerau'r Archwilydd Cyffredinol i ddilyn y 'bunt gyhoeddus' ble bynnag mae'n mynd.

**Yr adroddiad hwn**

Cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) gyfrifoldebau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb i gyhoeddi ei asesiad o drefniadau pob cyngor/awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, sef; cyhoeddi adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau.[1]

1 Cynhelir yr asesiad hwn ar gyfer pob awdurdod gwella, o dan adran 18 o'r Mesur. Bydd yn penderfynu a yw pob awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal archwiliad o wybodaeth am welliannau a chynllunio ar gyfer gwella, fel sy'n ofynnol o dan adran 17 o'r Mesur, er mwyn penderfynu a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7).

Bydd hyn yn cael ei lywio gan:

- Asesiad Corfforaethol – asesiad sy'n edrych i'r dyfodol i weld pa mor debygol yw awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus; ac
- Asesiad o Berfformiad – asesiad ôl-weithredol i weld a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llywio barn ar sut y llwyddodd yr awdurdod i wella.

Cyhoeddir canlyniad(au) yr asesiadau hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Adroddiad(au) Archwilio ac Asesu, o dan adran 19 o'r Mesur. Wrth gyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 19, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ardystio ein bod wedi cynnal archwiliad adran 17 ac asesiad gwella adran 18.

Dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal Arolygiadau Arbennig (o dan adran 21), a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, gan ei gyhoeddi o bosibl (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi Adroddiadau Archwilio ac Asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn a gyhoeddir (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau o Arolygiadau Arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23) sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi unrhyw waith a wnaed ganddynt.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r ffi ar gyfer gwaith archwilio perfformiad a wnaed ganddo i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur ym mhob awdurdod lleol mewn Rhaglen Reoleiddio y cytunir arni bob blwyddyn â'r awdurdod. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi ar gyfer mis Tachwedd 2009 hyd at fis Mawrth 2011 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Rhaglen Reoleiddio.

# Atodiad 2

## Gwybodaeth ddefnyddiol am Gaerdydd a Chyngor Caerdydd

Ceir 74 o Gynghorwyr yng Nghaerdydd sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnwys Aelodau o'r grwpiau gwleidyddol canlynol:

- 34 o Blaid y Democratiaid Rhyddfrydol
- 17 o'r Blaid Geidwadol
- 12 o'r Blaid Lafur
- 7 o Blaid Cymru
- 3 Annibynnol
- 1 o Blaid Annibynnol y Mynydd Bychan

Mae gan y Cyngor Weithgor o naw cynghorydd sy'n gwneud penderfyniadau ar faterion strategol a gweithredol.

**Cabinet**

| | |
|---|---|
| • Y Cynghorydd Rodney Berman | Corfforaethol |
| • Y Cynghorydd Judith Woodman | Cymunedau, Tai a Chyfiawnder Cymdeithasol |
| • Y Cynghorydd Neil McEvoy | Datblygu Economaidd |
| • Y Cynghorydd Freda Salway | Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| • Y Cynghorydd Margaret Jones | Amgylchedd |
| • Y Cynghorydd Mark Stephens | Cyllid a Darparu Gwasanaethau |
| • Y Cynghorydd John Dixon | Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles |
| • Y Cynghorydd Nigel Howells | Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant |
| • Y Cynghorydd Delme Bowen | Traffig a Thrafnidiaeth |

**Tîm Rheoli Corfforaethol**

| | |
|---|---|
| • Prif Weithredwr | Jon House |
| • Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymdeithasol | Neelam Bhardwaja |
| • Cyfarwyddwr Corfforaethol - yr Amgylchedd Adeiledig | Paul Orders |
| • Trysorydd y Ddinas a'r Sir | Christine Salter |
| • Cyfreithiwr y Ddinas a'r Sir | Kate Berry |

**Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol**

| | |
|---|---|
| • Caerdydd Canolog | Jenny Randeson |
| • Gogledd Caerdydd | Jonathan Morgan |
| • Gorllewin Caerdydd | Rhodri Morgan |
| • De Caerdydd a Phenarth | Lorraine Barrett |

**Aelodau Seneddol**

| | |
|---|---|
| • Caerdydd Canolog | Jenny Willott |
| • Gogledd Caerdydd | Jonathan Evans |
| • Gorllewin Caerdydd | Kevin Brennan |
| • De Caerdydd a Phenarth | Y Gwir Anrhydeddus Alun Michael |

I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan y Cyngor ei hun yn www.caerdydd.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor ar 029 2087 2000 neu anfonwch e-bost i: c2c@cardiff.gov.uk.

# Atodiad 3

## Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol

Nodir prif gasgliadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol, a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Awst 2010 isod:

**Mae'r Cyngor yn parhau â rhaglen drawsnewid sylfaenol, ac er ei fod yn ailwerthuso elfen allweddol o'r rhaglen honno eto, mae ei ddull gweithredu cyffredinol yn dangos potensial i sicrhau gwelliant.**

**Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser**

Sefydlodd y Cyngor ddealltwriaeth gadarn o'i weithrediadau a'i opsiynau ar gyfer newid drwy adolygiad gweithredol sylfaenol yn 2007.

Mae gan y Cyngor drefniadau dibynadwy ar gyfer rheoli rhaglen gymhleth o newid sydd wedi nodi risgiau allweddol a'i alluogi i ailystyried opsiynau.

Drwy reoli risgiau allweddol yn ofalus a gwella ei allu i ddangos canlyniadau, mae dull gweithredu'r Cyngor yn dangos y potensial i gyflawni gwelliannau.

**Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella**

Mae trefniadau'r Cyngor yn cefnogi gwelliant yn gadarnhaol yn y rhan fwyaf o ffyrdd, ond nid yw bob amser yn defnyddio TGCh nac asedau eraill yn effeithiol, ac nid yw ei drefniadau cyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar ganlyniadau eto.

Mae arweinyddiaeth glir a chadarn a llywodraethu cadarn, wedi'u hategu gan reolaeth ariannol effeithiol yn sail i gyflawni bwriadau strategol y Cyngor.

Mae ymagwedd y Cyngor tuag at reoli risg, perfformiad a'i bobl yn cefnogi gwelliant yn gadarnhaol yn y rhan fwyaf o ffyrdd ond mae cynaliadwyedd yr ymagwedd tuag at TGCh yn aneglur ac ni cheir digon o ganolbwyntio ar ganlyniadau.

Mae'r Cyngor yn nodi bod ei ymagwedd tuag at reoli asedau adeiladau yn wan.

I weld yr adroddiad llawn, ewch i'n gwefan yn www.wao.gov.uk neu cysylltwch â ni ar y cyfeiriad ar y clawr mewnol.

# Atodiad 4

## Llythyr Blynyddol yr Archwilydd Penodedig

**Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Caerdydd**

Mae Mesur Llywodraeth Leol 2009 wedi rhoi'r cyfle i Swyddfa Archwilio Cymru ailystyried y ffordd y dylid cyflwyno canfyddiadau'r archwiliad ariannol a'r gwaith archwilio perfformiad i gyrff llywodraeth leol. Fel y gwyddoch, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol i bob awdurdod lleol yn ystod y misoedd nesaf a bydd llawer o'r materion a nodwyd yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig yn draddodiadol yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Felly, rwyf wedi achub ar y cyfle i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Penodedig (y cyfrifon, y casgliad gwerth am arian a'r archwiliad o'r cynllun gwella) yn y llythyr byr hwn, sy'n ffurfio'r Llythyr Archwilio Blynyddol.

Bwriedir i'r llythyr fod yn ddogfen annibynnol, ond caiff ei gyflwyno i'r Cyngor a'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol ac felly mae'n cyflawni fy nyletswyddau o ran cyflwyno adroddiad o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- cyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref.

Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r datganiad cyfrifon.

Ar 29 Medi 2010, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn.

Roedd fy nghanfyddiadau allweddol, a nodir yn fanwl yn fy Memorandwm Datganiadau Ariannol a'm Hasesiad o brosesau Archwilio Mewnol, fel a ganlyn:

- nid oedd gennyf bryderon difrifol ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu a chyflwyno adroddiadau ariannol;
- roedd gan y Cyngor reolaethau ariannol lefel uchel effeithiol sy'n lleihau'r risg o gamddatganiad perthnasol yn y datganiad cyfrifon er bod lle i atgyfnerthu'r trefniadau hyn;
- ni wnaeth fy mhrofion nodi unrhyw wendidau perthnasol mewn perthynas â gweithdrefnau rheolaeth ariannol mewnol y Cyngor er bod lle i wella agweddau ar eu gweithrediad ymhellach;
- mae gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn sefydledig er bod angen gwelliannau mewn rhai meysydd allweddol i'w alluogi i sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llawn â Safonau Archwilio Mewnol CIPFA.

Ym mis Gorffennaf 2010, cyflwynais adroddiad i swyddogion ar ganlyniadau fy mhrofion archwilio dros dro ynghyd â'r ffordd y mae'r canfyddiadau'n effeithio ar fy null bwriadedig o archwilio'r datganiad cyfrifon. Yna cyflwynais adroddiad ar y materion allweddol a ddeilliodd o'm harchwiliad o’r datganiad cyfrifon i'r Panel Archwilio ar 15 Medi 2010 ac i'r Cyngor ar 23 Medi 2010.

Cyflwynwyd fy adroddiad ar fy asesiad o'r gwasanaeth archwilio mewnol yn erbyn Safonau Archwilio Mewnol CIPFA i'r Panel Archwilio ar 15 Medi 2010.

Cyflwynwyd canlyniadau fy archwiliad o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg i'r Panel Cynghori ar Fuddsoddiadau ar 2 Medi 2010.

Mae fy adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Mesur Llywodraeth Leol. Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Yn ein hadolygiadau dros dro, nodir bod trefniadau'r Cyngor yn cefnogi gwelliant yn gadarnhaol yn y rhan fwyaf o ffyrdd, ond nad yw bob amser yn defnyddio TGCh ac asedau eraill yn effeithiol, ac nad yw ei drefniadau cyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar ganlyniadau eto.

Deuwn i'r casgliad fod Cynllun Gwella 2010-2011 y Cyngor yn bodloni gofynion statudol ac yn rhoi darlun cytbwys o'i berfformiad yn 2009 10.

Rwyf wedi cwblhau'r archwiliad o ddatganiad cyfrifon y Cyngor yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Fodd bynnag, ni allaf gwblhau'r archwiliad yn ffurfiol na chyhoeddi tystysgrif nes fy mod wedi ystyried mater a ddaeth i'm sylw o dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ar gyfer 2009-2010 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Strategaeth Archwilio Ariannol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y ffi yn uwch o ganlyniad i unrhyw waith y bydd angen ei wneud i ddelio â'r mater y cyfeiriwyd atom o dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd. Bydd y Cyngor yn cael adroddiad ar wahân ar hyn.

Mae gan etholwyr lleol yr hawl i edrych ar gyfrifon y Cyngor. Pan fydd y Cyngor wedi cwblhau ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, fel rheol tua mis Mehefin neu fis Gorffennaf, mae'n rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Gallwch gael copïau o'r cyfrifon gan y Cyngor; gallwch hefyd weld pob llyfr, gweithred, contract, bil, taleb a derbynneb sy'n ymwneud â hwy. Yna mae gennych 20 diwrnod gwaith i edrych drwy'r cyfrifon a dogfennau. Gallwch ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn y mae'n ei harchwilio. Er enghraifft, gallwch roi gwybod i'r archwilydd os ydych o'r farn bod rhywbeth o'i le ar y cyfrifon neu am wastraff neu aneffeithlonrwydd o ran y ffordd y mae'r cyngor yn cynnal ei wasanaethau. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar daflen Swyddfa Archwilio Cymru, Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau, ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk.

# Atodiad 5

## Amcanion gwella Cyngor Caerdydd

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella yn ei Gynllun Corfforaethol sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk. Nodir wyth canlyniad allweddol y bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn gweithio tuag atynt rhwng 2010 a 2013. Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos y canlyniadau a'r blaenoriaethau allweddol cysylltiedig. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys camau gweithredu arfaethedig a'r mesurau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu defnyddio i'w helpu i wybod a yw'n gwneud gwahaniaeth:

**Mae pobl Caerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel**

- Diogelu dinasyddion sy'n agored i niwed.
- Lleihau troseddau, ofn troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol

**Mae gan Gaerdydd economi sy'n ffyniannus a llewyrchus**

- Atgyfnerthu rhwydweithiau sector cyhoeddus-preifat i ddatblygu a chefnogi busnesau lleol llwyddiannus.
- Dod yn lleoliad busnes a chyrchfan i ymwelwyr o'r radd flaenaf.

**Mae pobl Caerdydd yn cyflawni eu potensial i'r eithaf**

- Gwella ansawdd cynllunio a gweithio mewn partneriaeth ar lefelau strategol a gweithredol er mwyn gwella canlyniadau dysgwyr a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol.

**Mae Caerdydd yn lle gwych i fyw, gweithio a chwarae ynddo**

- Cyflwyno dewisiadau teithio cynaliadwy
- Datblygu Caerdydd fel canolfan ryngwladol ar gyfer y celfyddydau, diwylliant, adloniant, treftadaeth, chwaraeon, hamdden a digwyddiadau.

**Mae gan bobl Caerdydd amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy**

- Cyflawni mesurau rheoli gwastraff effeithiol ac effeithlon.
- Creu dinas lanach.
- Creu dinas fwy cynaliadwy a gwyrddach.
- Adfywio Cymdogaethau Lleol.

**Mae pobl Caerdydd yn iach**

- Hyrwyddo a chefnogi Ffyrdd Iach a Gweithgar o Fyw.
- Sicrhau Safonau Amgylcheddol Uchel.
- Sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn cael mynediad at wasanaethau er mwyn lleihau anghydraddoldeb iechyd.

**Mae cymdeithas Caerdydd yn un deg, cyfiawn a chynhwysol**

- Sefydlu Model Rheoli Cymdogaeth Caerdydd.
- Ymateb yn effeithiol i'r ffordd y mae dinasyddion am gael mynediad at wasanaethau.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal a chymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau.

**Mae'r Cyngor yn cyflawni canlyniadau gwell i'r ddinas a'i dinasyddion drwy bartneriaethau cryf**

- Rhoi'r dull Gweddnewid Strategol ar waith er mwyn cyflawni arloesedd ac effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.
- Datblygu gwasanaethau cyhoeddus di-dor i ddinasyddion a chymunedau yng nghyd-destun atebolrwydd democrataidd cadarn.

# Atodiad 6

## Cyfeiriadau

Daw'r holl ddata y cyfeirir ato yn yr adroddiad o'r ffynonellau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, StatsCymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystadegau cryno ardaloedd lleol
- Gwefannau a chynlluniau gwella'r awdurdod gwella ei hun
- The Wales Yearbook
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol